# RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith yn y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac yn rhithiol dros Zoom, ddydd Mawrth 23 Gorffennaf 2024

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm, dydd Gwener 26 Gorffennaf 2024. Rhaid cyflwyno unrhyw gais i alw unrhyw benderfyniad i mewn drwy'r Prif Weithredwr dim hwyrach na 5:00pm, dydd Gwener 2 Awst 2024. Bydd y penderfyniadau'n dod i rym (os na chofnodir unrhyw gais dilys i'w galw i mewn) ddydd Llun 5 Awst 2024.

**Yn Bresennol**: Cynghorwyr Robin Williams (Dirprwy Arweinydd) (Cadeirydd) Gary Pritchard (Dirprwy Arweinydd), Alun Roberts, Nicola Roberts, Neville Evans, Dafydd Roberts a Dafydd Rhys Thomas.

**Hefyd yn bresennol**: Cynghorwyr Douglas Fowlie, Glyn Haynes, R. Llewelyn Jones, Derek Owen.

**Ymddiheuriadau**: Cynghorydd Carwyn Jones.

(10:00 y. b. tan 11:25 y. b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol. |
| PENDERFYNIAD | **Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 23 Mai 2024 yn gywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol.** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol.** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Amherthnasol.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Rhaglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod Medi 2024 i Fawrth 2025 gyda'r newidiadau a** |

| | |
|---|---|
| | **amlinellwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gryfhau atebolrwydd a threfniadau cynllunio ymlaen llaw.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 5 **Hunan Asesiad Corfforaethol 2023/24**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd mabwysiadu dogfen Hunan-asesiad Corfforaethol 2023/24 fel fersiwn terfynol yn dilyn ystyriaeth a sylwadau ar ei gynnwys gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 18 Gorffennaf 2024.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Lleol ac Etholiadau Cymru 2021.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 6 **Monitro'r Gyllideb Refeniw, Alldro 2023/24**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Nodi'r sefyllfa a osodwyd yn Atodiad A a B yn yr adroddiad mewn perthynas ag alldro ariannol yr Awdurdod ar gyfer 2023/24.**<br>• **Nodi'r crynodeb ar gyfer cyllidebau wrth gefn 2023/24, fel y nodwyd yn Atodiad C.** |

| | |
|---|---|
| | • **Nodi'r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro ar gyfer 2023/24 yn Atodiadau CH, D a DD.**<br>• **Nodi bod balans o £15.694m yn cael ei amcangyfrif ar gyfer balansau cyffredinol y Cyngor ar 31 Mawrth 2024.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I fonitro perfformiad y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2023/24.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Alldro Cyfalaf 2023/24**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Nodi sefyllfa alldro drafft Rhaglen Gyfalaf 2023/24 fydd yn destun Archwiliad.**<br>• **Cymeradwyo dwyn ymlaen £15.499m i 2024/25 ar gyfer y tanwariant ar y rhaglen oherwydd llithriad. Bydd y cyllid ar gyfer hyn hefyd yn cael ei ddwyn ymlaen i 2024/25 (Atodiad A – paragraff 4.3). Y gyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2024/25 yw £59.337m.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I fonitro perfformiad y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2023/24.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai, Alldro 2023/24**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd nodi'r sefyllfa a osodwyd mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2023/24.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad y Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2023/24.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Cyfrifon Terfynol Drafft 2023/24 a defnydd o Gronfeydd with Gefn a Balansau**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Nodi'r prif ddatganiadau ariannol drafft (heb eu harchwilio) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24. Cyhoeddir y Datganiad Cyfrifon Drafft llawn ar gyfer 2023/24 ar y ddolen a ganlyn:-** Datganiad-or-cyfrifon-Drafft-2023-2024.pdf (llyw.cymru)<br>• **Nodi sefyllfa balansau cyffredinol y Cyngor, sef £15.604m.**<br>• **Nodi balans y Cronfeydd wrth gefn clustnodedig, sef £16.778m, a chymeradwyo creu £1.553m o gronfeydd wrth gefn newydd clustnodedig.**<br>• **Cymeradwyo, yn ffurfiol, trosglwyddo £2.002m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig yn ôl i Falansau Cyffredinol y Cyngor.**<br>• **Nodi balans cronfeydd wrth gefn ysgolion, sef £5.577m.** |

| | |
|---|---|
| | • **Nodi balans cronfa'r CRT, sef £8.189m.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I bennu lefel a defnydd yr arian wrth cefn a'r balansau.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Newid i'r Cyfansoddiad: Cynllun Dirprwyo i Swyddogion** Adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro. |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd argymell bod y Cyngor Llawn yn cefnogi'r canlynol -** <br><br> • **I ddirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, mewn ymgynghoriad a'r Arweinydd (neu pa bynnag wedi ei ddirprwyo i Ddeilydd Portffolio a enwebwyd gan yr Arweinydd), i gyflawni holl swyddogaethau statudol y Cyngor mewn cysylltiad ag unrhyw ddatblygiad sydd yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) ac sy'n gofyn am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) fel y'i diffinnir o dan Ddeddf Cynllunio 2008 fel y diwygiwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.** <br> • **Y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd), i ddiweddaru adran 3.5.3.10 o'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r dirprwyaethau a roddwyd gan y penderfyniad.** <br> • **Caniatâd i wyro oddi wrth ofynion Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor er mwyn galluogi i gyfieithiad Cymraeg o sylwadau'r Cyngor gael ei hanfon at yr** |

| | |
|---|---|
| | **Arolygaeth Gynllunio yn dilyn eu cyflwyno yn y Saesneg. (Mae'r eithriad ei angen oherwydd nad yw amserlen archwiliad NSIP yn caniatáu amser digonol i sylwadau'r Cyngor gael eu cyfieithu erbyn y dyddiad cyflwyno).** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Galluogi'r Cyngor i ymgysylltu gyda phrosiectau NSIP mewn ffordd amserol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Mae newidiadau i'r Cyfansoddiad yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor Llawn** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 Cyflwr economaidd-gymdeithasol Gogledd Ynys Môn a'r achos dros fuddsoddi a chymorth**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Nodi Adroddiad Effaith Economaidd-gymdeithasol Gogledd Ynys Môn a chynnwys yr adroddiad fel ei fod yn gwbl ymwybodol o'r sefyllfa bresennol, y tueddiadau, y cyfleoedd a'r heriau.**<br>• **Cefnogi'r Arweinydd i ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cabinet newydd dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg i godi ymwybyddiaeth o'r materion, heriau a chyfleoedd.**<br>• **Cefnogi gweithgareddau parhaus y Cyngor i nodi a sicrhau cyllid allanol i hwyluso gweithgareddau adfywio yn y dyfodol.**<br>• **Sicrhau bod Swyddogion ac Aelodau Etholedig yn defnyddio'r data sydd yn yr Adroddiad Effaith i wneud penderfyniadau gwybodus fel Cyngor llawn i gyflawni Cynllun y Cyngor (2023-2028).** |

| | |
|---|---|
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Gosod yr achos dros fuddsoddi a chymorth i fynd i'r afael â'r heriau economaidd-gymdeithasol yng ngogledd Ynys Môn** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |